# Paratoi ar gyfer gwaith delweddau digidol ar gynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer gwaith yn ymwneud â delweddau digidol ar gynyrchiadau. Fe allai hyn fod yn berthnasol i unrhyw fath o gynhyrchiad gan gynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu Teledu, hysbysebion, rhaglenni dogfen, rhaglenni chwaraeon, darllediadau tu allan a digwyddiadau byw neu ar lwyfannau.

Mae hyn yn ymwneud ag adnabod y gofynion creadigol a thechnegol ynghyd ag unrhyw ffactorau a all effeithio ar reoli a storio data yn effeithiol, dwyn i ystyriaeth materion yn ymwneud â'r lleoliad a'r amgylchedd, gan gynnwys cludo'r offer a manteisio ar ffynonellau trydan. Mae hefyd yn ymwneud â llunio dogfen llif gwaith i fodloni'r deilliannau y cytunwyd arnyn nhw ar y cyd â'r timau camera ac ôl-gynhyrchu.

Mae'r safon hon ar gyfer technegwyr delweddu digidol (TDD) sy'n paratoi at weithio ar gynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod gofynion a'r adnoddau gofynnol ar gyfer gwaith TDD wedi bwrw golwg ar waith papur perthnasol y cynhyrchiad
2. cyfathrebu gyda'r bobl briodol ynghylch gofynion y swydd er mwyn gofalu bod modd bodloni galwadau'r cynhyrchiad
3. cynllunio gwaith i ddwyn i ystyriaeth ffurfiau saethu, y lleoliad, yr amgylchedd ac unrhyw faterion logistaidd eraill
4. cyfathrebu gyda'r bobl briodol i ofalu bod y cyfarpar a'r adnoddau priodol ar gael
5. manteisio ar unrhyw gyfarpar a meddalwedd ychwanegol gan gyflenwyr priodol pan fo'n briodol
6. cynghori'r bobl briodol sydd ynghlwm â'r cynhyrchiad am broblemau technegol a all effeithio ar y cynyrchiadau
7. cynnig datrysiadau technegol sy'n gofalu bod y cynyrchiadau'n fwy effeithiol
8. llunio dogfennau llif gwaith gyda deilliannau wedi'u nodi'n eglur
9. cyfathrebu gyda'r timau camera ac ôl-gynhyrchu am y llif gwaith ar adegau priodol
10. dosbarthu'r dogfennau llif gwaith at y bobl a'r adrannau priodol
11. cydymffurfio gyda rheolau ymddygiad y safon ac ymarferion gweithio'r cynhyrchiad y cytunwyd arnyn nhw bob amser
12. gofalu eich bod yn gyfarwydd gyda'r offer a'r meddalwedd penodol ar gyfer cynyrchiadau
13. gwirio ydy'r ffynonellau pŵer priodol ar gael drwy ymgynghori gyda'r adrannau trydan
14. cadarnhau bod y cyfarpar yn addas i'r diben ac mewn cyflwr da cyn y cynhyrchiad
15. gwirio bod systemau archifo effeithiol a phriodol mewn lle cyn y cynhyrchiad
16. defnyddio pebyll tywyll i greu amgylcheddau ar gyfer lliwiau penodol
17. trin, pacio a chludo cyfarpar yn ddiogel

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

* *

1. y prosesau a phobl cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, gan gynnwys camerâu, golygu, cydymffurfio, graddoli ac effeithiau gweledol (VFX)
2. sut i ddadansoddi sgript a deall yr effaith ar waith TDD y sgript, gofynion y cynhyrchiad, ffurfiau saethu, lleoliad a'r amgylchedd
3. sut i asesu lleoliadau ar gyfer unrhyw faterion logistaidd penodol yn ymwneud â ffurfiau saethu a ffactorau a all beri ystyriaethau ychwanegol, fel saethiadau stereosgopig neu anamorffig
4. sut i adnabod a rheoli adnoddau i fodloni anghenion y cynhyrchiad, gan gynnwys penodi staff ychwanegol a llogi cyfarpar ychwanegol pan fo'n briodol
5. y rolau eraill ynghlwm â'r cynhyrchiad a phryd i gyfathrebu gyda nhw
6. pam ei bod hi'n bwysig cydweithio gyda gweithwyr camera proffesiynol mewn dull diplomataidd a phroffesiynol
7. y ffynonellau pŵer priodol ar gyfer eich gwaith
8. sut i fanteisio ar a chodi pebyll tywyllu
9. sut i ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar electronig a chyfrifiadurol
10. sut i gynnal a chadw a diweddaru cyfarpar yn rheolaidd er mwyn cydymffurfio gyda newidiadau i feddalwedd a ffurfiau
11. sut i ddilyn technolegau cyfredol a thechnolegau caiff eu datblygu yn ymwneud ag offer a meddalwedd
12. y pecynnau meddalwedd cyfredol a'u defnyddiau
13. sut i fanteisio ar wybodaeth ynghylch canfod meddalwedd anadnabyddus
14. lle i ganfod cyfarpar a meddalwedd
15. gofynion yswiriant ar gyfer cyfarpar a meddalwedd
16. sut i gadarnhau bod cyfarpar mewn cyflwr da
17. sut i gynnig datrysiadau creadigol drwy wybodaeth dechnegol
18. sut i rannu syniadau creadigol ac unrhyw faterion neu anghenion sy'n codi
19. y ffynonellau gwybodaeth am ddiben ac addasrwydd y cyfarpar camera dewisol a'r nifer o gamerâu y dylid eu defnyddio
20. y gofynion trin, pacio a storio cyfarpar
21. ffurfiau a chynnwys dogfennau llif gwaith

Paratoi ar gyfer gwaith delweddau digidol ar gynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSDIT1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â'r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Camera |
| **Geiriau Allweddol** | camera; cynhyrchiad ffilm; cynhyrchiad teledu; gofynion creadigol a thechnegol; storio data; gwaith delweddau digidol |